



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU      LEGISLATION COMMITTEE REPORT**  
**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol)**  
**(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 (OS 1992/661) sy'n rheoleiddio ar ba delerau y mae gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn cael eu darparu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae diwygiadau i'r un perwyl â'r rhai a geir yn Rheoliadau 4 a 5 wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr yn OS 2001/1677. 24 Mai a 24 Mehefin eleni yw'r dyddiadau cyfatebol y daw'r rheiny i rym.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae'n ymddangos y dylai "Taliadau archwiliadau clinigol" yn yr ail baragraff fod yn "Lwfansau archwiliadau clinigol" (gweler Rheoliad 4(b)).

**Rheoliad 3(b)**

Nodir nad yw'r rheoliadau'n ceisio newid y cyfeiriadau at "FHSA" yn y testun. Rhagdybir bod hyn wedi'i wneud er mwyn osgoi'r dryswch a allai godi pe bai rheoliadau 1992, fel y

maent yn gymwys ar gyfer Lloegr, yn parhau i gyfeirio at “FHSA”, ond bod testun y Rheoliadau yn wahanol ar gyfer Cymru. Os felly, ni chredir bod geiriad paragraff (1A) yn gymaint o gymorth ag y gallai fod. Mae’n rhoi’r argraff bod rheoliadau 1992 yn honni eu bod yn diwygio eu testun hwy eu hunain. Hefyd, nid oes dim byd yn (1A) i ddangos bod yr addasiad hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Fe allai paragraff (1A) fod wedi cael ei eirio’n fwy priodol rywbeth yn debyg i hyn –

“(1A) In the application of these Regulations in relation to Wales “FHSA” shall, in each place where this abbreviation occurs, have effect as if there were substituted the words “Health Authority”.”

Os yw’r Gweinidog o blaid gwneud diwygiad rywbeth yn debyg i’r uchod, cadarnheir y byddai’n briodol ei gynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

### **Rheoliad 5**

Mae’r paragraffau 31E, 31F a 31G(1) sy’n cael eu mewnosod yn cynnwys cyfeiriadau sy’n benodol o ran gender. Er nad yw hyn yn codi unrhyw fater cyfreithiol, nid yw’n cyd-fynd â’r arfer y mae’r Cynulliad wedi’i fabwysiadu o ddefnyddio iaith sy’n niwtral o ran gender wrth ddrafftio.

Hefyd, yn y diffiniad o “the relevant period” ym mharagraff 31E(2) nid yw geiriad paragraff (a)(ii) yn cynnwys y gair “later” sy’n digwydd yn y ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliadau Lloegr. Credir bod cynnwys y gair “later” o gymorth gan ei fod yn dileu unrhyw amheuaeth bosibl ynghylch y dyddiad pryd y mae’r cyfnod o dair blynedd i ddechrau rhedeg.

Os yw’r Gweinidog o blaid gwneud diwygiadau mewn perthynas â’r pwyntiau uchod, cadarnheir y byddai’n briodol cynnwys y materion hyn mewn Memorandwm Cywiriadau.

**Mick Bates AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

3 Gorffennaf 2001